

## Cofion a Chyfarchion

- Diolchwn am y gofal y mae Elsie May Edwards (Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) yn parhau i'w gael yn yr Inffirmari. Anfonwn ein cofion atynt ac at eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy yn ein gweddïau i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid hefyd. Hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Edna Evans (Llanfair) oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau'r wythnos hon!

## Pecyn Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Os oes unrhyw eglwys heb dderbyn y pecyn blynyddol er mwyn medru archebu'r taflenni a phosteri ar gyfer y Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd 2017, plis cysylltwch â Mair.

I arbed costau postio, bydd angen i chi fod wedi archebu'r deunydd **erbyn dechrau mis Tachwedd**, gan nodi'n glir ar y daflen y bydd rhywun o Eglwysi Bro Aled yn casglu'r pecyn ar eich rhan. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?)

## I ddod

- **"YR HEN A WYR A'R IFANC A DYBIA"** – beth mae'r Beibl yn ei ddweud tybed? Croeso i chi i Festri Llansannan am 7.30 nos Fercher, Hydref 26ain.
- **OEDFA'R FRO AR DAITH** – Cynhelir Oedfa'r Fro ar Hydref 30ain yng Nghefn Berain pryd y bydd Eryl yn arwain a Rhodri yn pregethu.
- **ADNODDAU A SYNIADAU AT Y SUL** yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych nos Iau, Tachwedd 3ydd am 7.00.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghanolfan Ebenezer, Caernarfon dydd Mercher, Tachwedd 9fed o 10.00 – 3.00.

## Darllenid Wythnos Nesaf

Datguddiad 5:11-14 (BCND tud.274 / BCN tud.251)

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16<sup>eg</sup> Hydref 2016

## Darllenid y Dydd

Habacuc 3:17-19

(BCND tud.853 / BCN tud.777)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)


[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

'Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni ond i'th enw dy hun, rho ogoniant, er mwyn dy gariad a'th ffyddlondeb.' Dyma sut y mae Salm 115 yn dechrau, hefo'r dymuniad ar i Dduw gael y ganmoliaeth a'r gogoniant y mae'n ei haeddu oherwydd pwy ydyw. Wrth i ni addoli gyda'n gilydd heddiw, gweddïwn ar i'r Ysbryd Glân fod ar waith yn ein calonnau i ddangos sut mae cariad a ffyddlondeb Duw wedi dod i'n plith yn Iesu Grist, unig achubwr dynol ryw. Gofynnwn am gymorth i ninnau roi gogoniant i'r Arglwydd trwy droi cefn ar ein pechod a rhoi'n hunain yn llwyr i Grist.

Un peth sy'n sicr yn wahanol iawn o gymharu Llundain â Bro Aled yw'r calendr Cristnogol ym mis Hydref! Does fawr ddim allan o'r arfer yn cael ei gynnal yn nifer o eglwysi Llundain trwy'r mis, ond i ni yma, rydym yng nghanol prysurdeb tymor yr oedfaon Diolchgarwch. Dyma'r cyfle lle byddwn yn ystyried cymaint o bethau gwahanol sydd gennym i ddiolch amdanynt – llawer ohonynt yn freintiau neu'n sefyllfaoedd yr ydym fel arfer yn eu cymryd yn gwbl ganiataol. Ond a fyddai'r un peth yn wir a ninnau yng nghanol prinder neu ddinistr? Petaem yng nghanol angen dirfawr a chaledi, fyddem ni'n gallu troi at Dduw mewn diolchgarwch yr un ffordd wedyn? Wrth i ni ddarllen rhan olaf llyfr Habacuc ar gyfer ein darllenid ar y cyd, cawn enghraifft wych o ffydd gadarn a'r hyn a ddylai fod yn dymuniad i bob Cristion – y dyhead hwnnw i brofi llawenydd yn yr Arglwydd er gwaethaf ein sefyllfa ar y pryd. Ac mae'r llawenydd hwnnw'n mynd law yn llaw â diolchgarwch didwyll y crediniwr. Wrth gwrs, nid yw'r ymatebion hyn yn dod yn rhwydd ond yn hytrach yn dod o berthynas o ymddiried sy'n dibynnu bob dydd ar ddaioni'r Arglwydd. Ar ddiwedd llyfr Habacuc, mae'r proffwyd yn rhagweld cyfnod pan fydd popeth disgwylidig wedi methu – dim cynhaeaf nac anifeiliaid i'w gwerthu, ond eto gellir cael llawenydd yn yr Arglwydd sy'n iachawdwriaeth. Mae'n bosib llawenhau oherwydd bod yr Arglwydd yn achub. I ni heddiw, ac yn enwedig os ydym yn ei gweld hi'n dasg anodd i ddiolch oherwydd ein sefyllfa, cofiwn fod angen i ni ystyried llawer mwy na'r hyn sydd yn y golwg yn unig. Mae'r Iesu'n fyw, ac yn gweddïo dros ei bobl. Os ydym wedi ymddiried ynddo, mae'r Beibl yn datgan fod gennym, er ein gwendid, lawnder o'r cyfan sydd ei angen arnom yn ein Gwaredwr. Ynddo Ef cawn dderbyn stôr ddiwedd o gariad, maddeuant a chryfder ar gyfer pob gofyn. (Philipiad 4:13) Diolch Iddo!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mawrth – 18<sup>fed</sup>  
lau – 20<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuencid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- lau – 20<sup>fed</sup> ➤ Oedfa Diolchgarwch yn Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.00 gyda'r Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Mercher – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol yng Nghapel Llanefydd am 10.30.
- Gŵyl Ddiolchgarwch Llanefydd: Swper a Sgwrs gan y Parch. Nan Powell-Davies yn Neuadd Llanefydd am 7.00. Enwau i Manon, Bryn Deunydd neu Marian, Bodysgaw Isa erbyn Hydref 16eg, os gwelwch yn dda.
- lau – 20<sup>fed</sup> ➤ Oedfa Diolchgarwch Cefn Berain am 7.00 gyda'r Parch. Glenys Jones, Pwllheli yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Gwener – 21<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) erbyn dydd Sul, Hydref 16eg, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Llun – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Noson Agoriadol y Gymdeithas yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees **am 7.00** pryd y bydd Angharad Ellis, Erin Edwards, Cara Humphrey, Alaw Thomas a Lily Van Looche yn ein diddanu.
- lau – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch plant Ysgol Bro Aled yng Nghapel Bethania am 2.00.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain Oedfa Diolchgarwch yn Nantglyn am 2.00. Croeso cynnes i bawb.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y plant a'r ieuencid yn Saron am 2.00. Gwerthfawrogir eitemau i'r Banc Bwyd.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00, ac yn Henllan am 2.00.
- Gwener – 21<sup>ain</sup> ➤ Oedfa Diolchgarwch Capel y Groes am 7.00 gyda'r Parch. Carwyn Siddall yn pregethu. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 2.00. Yn ystod yr oedfa byddwn yn diolch i'r Arglwydd am Ifan Sion, mab bach Lois a Huw Roffe. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*